| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 21 Tachwedd 2023 |
| **Aelod Arweiniol/Swyddog** | Y Cyng. Win Mullen-James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio<br>Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Emlyn Jones, Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **Awdur yr adroddiad** | Kimberley Mason, Rheolwr Prosiect Corfforaethol |
| **Teitl** | Diwygio'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (2023) |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal a chyflwyno asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr i Lywodraeth Cymru bob 5 mlynedd. Cynhaliodd y Cyngor yr asesiad rhwng mis Awst a mis Hydref 2021, a chafodd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 24 Rhagfyr 2021.

1.2. Yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet a chyflwyno'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr i'r llywodraeth, cysylltodd deulu gydag angen, a oedd wedi gwrthod cymryd rhan yn flaenorol, â'r Cyngor i ofyn am gael eu cynnwys.

1.3. Yn dilyn adroddiad i sesiwn friffio'r Cabinet ar 9 Ionawr 2023, cytunwyd y dylid adolygu'r asesiad, cyfweld â'r teulu ychwanegol, a chynnwys eu data yn yr asesiad diwygiedig i'w ail-gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen i gefnogi'r gwaith ar yr asesiad newydd, a bu iddyn nhw gyflwyno eu hadroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Hydref 2023.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr diwygiedig Sir Ddinbych (Atodiad 1) a derbyn cymeradwyaeth y Cabinet i'w ail-gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

2.2. Mae modd i awdurdodau lleol gyflwyno asesiad diwygiedig cyn i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r asesiad gwreiddiol; a hyd at fis Hydref 2023 nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu unrhyw adborth i unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru ac nid ydynt wedi dweud pryd y bydd hynny'n digwydd chwaith.

# 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn cadarnhau eu cefnogaeth ar gyfer y dull a fabwysiadwyd i ddiwygio Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych fel ei fod yn gadarn ac yn cadw at ganllawiau Llywodraeth Cymru.

3.2. Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r asesiad diwygiedig er mwyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

3.3. Rhoi awdurdod wedi'i ddirprwyo i Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio i gytuno ar y mân newidiadau golygyddol sydd angen eu gwneud i'r asesiad drafft cyn ei gyflwyno i'r llywodraeth.

3.4. Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 4) fel rhan o'i ystyriaethau. Cafodd hyn ei wneud cyn cyflwyno'r asesiad cyntaf yn 2021 ac mae wedi'i adolygu yn 2023.

# 4. Manylion yr adroddiad

## Cefndir

4.1. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr (Adran 101), cynhyrchu adroddiad yn manylu ar sut y cynhaliwyd yr asesiad hwnnw, cyflwyno'r asesiad i Lywodraeth Cymru ei gymeradwyo (Adran 102) ac yna diwallu'r anghenion hynny (Adran 103). Mae Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr cyfoes hefyd yn ofynnol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd.

4.2. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol manwl, sef '*Cyflawni Asesiadau o Lety Sipsiwn a Theithwyr*'[1]. Bydd y llywodraeth yn asesu'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn erbyn y fethodoleg yma. Mae angen Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr er mwyn nodi'r anghenion llety yn Sir Ddinbych, sy'n cynnwys llety parhaol a llety dros dro. Nid oes yn rhaid i'r asesiad nodi lleoliad y safleoedd i gwrdd â'r anghenion a nodwyd.

---

[1] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cynnal-asesiadau-o-anghenion-llety-sipsiwn-a-theithwyr.pdf

4.3. Mae methodoleg y llywodraeth yn caniatáu i gynghorau ddefnyddio ymgynghorwyr allanol i gynnal yr asesiad. Comisiynwyd Opinion Research Services (ORS) i gynnal yr asesiad ar ran Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae adroddiadau ar wahân wedi'u datblygu ar gyfer pob awdurdod ac maent wedi ymgymryd â'r gwaith ychwanegol ar gyfer Sir Ddinbych.

4.4. Ail-sefydlwyd dull rheoli prosiect cadarn yn 2022, gyda Bwrdd Prosiect dan arweiniad Aelodau a'r Aelod Arweiniol yn gweithio gydag Uwch Swyddogion i gyfeirio'r gwaith i sicrhau ymgysylltiad Aelodau, didwylledd a thryloywder.

## Grŵp Tasg a Gorffen

4.5. Roedd Aelodau Etholedig a'r Pwyllgor Craffu wedi codi pryderon eisoes ynghylch lefel yr ymgynghori gyda chymunedau Sipsiwn a Theithwyr a'r angen i ymgysylltu'n gynnar gyda'r Aelodau. Yn ystod y cyfarfod ar 13 Mai 2021 cytunodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau i sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i gefnogi datblygiad yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr newydd, ac ym mis Mawrth 2023 ail-sefydlwyd y grŵp hwn i gefnogi'r gwaith ychwanegol i ddiwygio'r asesiad. Mae cylch gorchwyl y Grŵp Tasg a Gorffen yn Atodiad 2.

## Canfyddiadau a Chasgliadau Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych 2023

4.6. Defnyddiwyd ystod eang o ddulliau i godi ymwybyddiaeth o'r asesiad ac i ymgysylltu â chymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr yn unol â'r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid, pan gyflawnwyd y gwaith gwreiddiol yn 2021. Ar gyfer yr asesiad diwygiedig, cysylltodd yr ymgynghorwyr, ORS, â'r teulu ychwanegol er mwyn eu cynnwys yn yr asesiad diwygiedig, gan asesu eu hanghenion yn defnyddio'r holiadur arolwg a oedd yn rhan o fethodoleg y llywodraeth. Cysylltodd ORS gyda'r teuluoedd a gyfwelwyd yn 2021 er mwyn sicrhau nad oedd eu hamgylchiadau wedi newid ac i ddiweddaru eu gwybodaeth fel y bo'r angen.

4.7. Casgliad Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr diwygiedig drafft Sir Ddinbych yw:

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd yn astudiaeth ORS, y ddarpariaeth ychwanegol amcangyfrifedig sydd ei hangen ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Ddinbych am 5 mlynedd gyntaf cyfnod yr astudiaeth (2023/24 - 2028/29) yw **16 llain preswyl parhaol.**

Yn seiliedig ar yr angen erbyn 2033, diwedd cyfnod CDLl Newydd Sir Ddinbych, bydd angen **2 lain preswyl parhaol** arall ar gyfer twf aelwydydd yn y dyfodol.

Mae hyn yn rhoi cyfanswm angen ar gyfer y cyfnod cyfan ar draws Sir Ddinbych o **18 llain preswyl parhaol sy’n gynnydd o 6 llain preswyl parhaol o gymharu â’r asesiad blaenorol a gwblhawyd yn 2021.**

**Nid oes tystiolaeth o’r angen am safle tramwy parhaol** oherwydd niferoedd isel y gwersylloedd diawdurdod, natur tymor byr y math yma o wersylloedd a'r ffaith nad oedd cyfweliadau gyda’r gymuned Sipsiwn a Theithwyr wedi nodi’r angen am ddarpariaeth dramwy barhaol yn lleol.

4.8. Os caiff ei gymeradwyo gan y Cabinet, y cam nesaf yw cyflwyno’r asesiad diwygiedig i Lywodraeth Cymru ei gymeradwyo.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd cwblhau’r asesiad yn cyfrannu at Amcan Lles a Chydraddoldeb Sir Ddinbych: *Sir Ddinbych â thai o ansawdd sy’n bodloni anghenion pobl* trwy ganfod anghenion llety’r gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Cafodd ymgynghorwyr eu caffael ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gynnal yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr. Daw ymrwymiad Sir Ddinbych o £5,500 o gyllideb y CDLl. Bydd unrhyw gost a ysgwyddir o’r gwaith ychwanegol yn cael ei ariannu trwy’r comisiwn gwreiddiol a chyllideb y CDLl.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

Cynhaliwyd Asesiad o’r Effaith ar Les ar gyfer y prosiect yn 2021 a’i adolygu yn 2023 ar gyfer y gwaith ychwanegol hwn (gweler Atodiad 4). Daethpwyd i’r casgliad bod yr effaith yn un cadarnhaol ar y cyfan, ac yn parhau felly.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cafodd canfyddiadau’r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr diwygiedig drafft eu hadolygu gan y Grŵp Tasg a Gorffen yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2023 a chytunodd y grŵp eu bod yn fodlon bod methodoleg y llywodraeth wedi’i defnyddio’n briodol i ddadansoddi’r angen.

8.3. Daeth y grŵp i'r casgliad bod eu trefniadau a'u prosesau wedi gweithio'n dda a gofynnwyd bod aelodau'r grŵp hefyd yn rhan o'r grŵp i ddewis a dethol safleoedd ar gyfer lleiniau ar y cam nesaf.

8.4. Adroddodd y Grŵp Tasg a Gorffen yn ôl i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, gyda'r adroddiad terfynol a'r asesiad diwygiedig drafft yn cael ei ystyried gan y pwyllgor ar 19 Hydref 2023. Cymeradwyodd y Pwyllgor Craffu gasgliadau'r Grŵp Tasg a Gorffen o ran bod methodoleg y llywodraeth wedi'i defnyddio'n briodol i ddadansoddi'r angen a bod y dull a fabwysiadwyd i gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych yn un cadarn ac yn cadw at ganllawiau'r llywodraeth, ac argymhellodd fod y Cabinet yn cymeradwyo'r asesiad er mwyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

# 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Fel y nodir yn Adran 6, mae ymrwymiad Sir Ddinbych o £5,500 wedi'i ariannu yn defnyddio cyllideb y CDLl. Croesawir y ffaith bod costau cychwynnol yr ymgynghorwyr wedi'u cwrdd yn defnyddio cyllidebau presennol.

# 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae nifer o risgiau i'r prosiect wedi'u nodi ac wedi'u cynnwys yn asesiad risg achos busnes y prosiect llawn. Canfuwyd bod diffyg cefnogaeth wleidyddol yn risg sylweddol, a arweiniodd at gynnwys yr Arweinydd a'r Aelod Arweiniol yn y prosiect o'r cychwyn cyntaf. Nod sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen a chyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Craffu oedd sicrhau bod Aelodau eraill yn gallu bod yn rhan o'r prosiect hefyd.

# 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Adran 101 – Deddf Tai (Cymru) 2014
Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000
Adran 7.4.1 ac Adran 7.4.2 (d) o Gyfansoddiad y Cyngor

# Atodiadau

**Atodiad 2 –** Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Diwygiedig Sir Ddinbych 2023 [Golygwyd]

**Atodiad 2** – Cylch Gorchwyl 2023 y Grŵp Tasg a Gorffen

**Atodiad 3 –** Adroddiad y Grŵp Tasg a Gorffen ar yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, Hydref 2023

**Atodiad 4** – Asesiad o'r Effaith ar Les Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2021 (adolygwyd yn 2023)